# LEWIS, WILLIAM (fl. 1786-94), emynydd

**Enw:** William Lewis
**Priod:** Phoebe Lewis
**Plentyn:** Maria Lewis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** emynydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

trigai yn Abermawr, Llangloffan, Sir Benfro. Gwehydd ydoedd, a dywedir ei fod yn rhagori ar wneuthur carpedau cain ac artistig. Yr oedd ei frawd, Thomas Lewis, yn weinidog ar eglwys Fedyddiedig Llangloffan, a bu yntau'n ddiacon yno am flynyddoedd. Cyhoeddwyd ei emynau 'wedi ei gosod allan gan Morris Griffith' yn *Galar a Gorfoledd y Saint; neu Hymnau cymmwys a pherthynol i Addoliad Cyhoeddus* (Trefeca, 1786); caed ail argraffiad diwygiedig o'r casgliad o wasg Peter Evans, Caernarfon, 'dros Hugh Jones,' yn nechrau'r ganrif ddiwethaf, dan y teitl, *Y Durtur, sef Ychydig o Hymnau, ar Amryw Destynau Efengylaidd*. Ceir ei emyn enwog, ' Cof am y cyfiawn Iesu,' yn y ddau lyfryn. Tybir iddo farw c. 1794, eithr cyhoeddwyd *Hymnau Newyddion* (Caerfyrddin) o'r eiddo 'gan Evan Rees ' yn 1798. Bu iddo ef a Phoebe ei wraig ddau o blant, ond i un ohonynt, Maria, y bu disgynyddion.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Seren Cymru*, 5 Gorffennaf 1889

W. A. Griffiths, *Hanes Emynwyr Cymru* (Caernarfon 1907), 200-2

*Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1906-7, 7

R. Edwards, *Hanes Llangloffan*

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734670

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu